

Atgofion

“Yn wir, yn wir, rwy’n dweud wrthyich, cyn geni Abraham, yr wyf i.” (adn. 58)

Beth am ddarlenn Ioan 8:48–58 ac yna myfyrio

Iesu Grist yw’r unig un sydd erioed wedi byw yn y byd yma a chanddo, ar yr un pryd, wybodaeth am y nefoedd. Beth, tybed, fuasai eich ymateb petai rhywun yn ymddangos ar y teledu, gan honni ei fod yn medru rhoi adroddiad dibynadwy i chwari am fywyd ar blaned arall. Sut byddech yn ymateb? Mae’n debyg mai’r cwestiwn a fyddai’n aros yw “Sut wyt ti’n gwybod? Sut medri di ddweud os nad wyt ti wedi bod yno.”

Yn y testun heddiw, fe welwn yn glir fod Iesu yn gwybod o ble yr oedd wedi dod. I ba raddau yr oedd Iesu yn cofio’r gogoniant yr oedd wedi ei adael? Pa mor ymwybodol oedd Iesu o’r bywyd yr oedd wedi ei fyw yn y nefoedd? Mae rhai am ddadlau nad oedd Crist yn cofio dim o’r gogoniant yr oedd wedi ei roi heibio. Dywedant mai’r rheswm ei fod yn gwybod am ei gynfodolaeth oedd fod Duw y Tad wedi datguddio hyn iddo. Mae eraill am ddadlau ei fod yn cofio yn iawn am ei ddyddiau yn y nefoedd.

Mae’n debyg mai yn y canol yn rhywle y mae’r gwirionedd. Roedd gan Iesu rai atgofion o’r nefoedd, ond dim ond digon i’w alluogi i gyflawni ei waith achubol. Roedd rhai pethau, mae’n amlwg, nad oedd yn eu gwybod yn ei ddyndod, gan ei fod yn wirfoddol wedi bodloni eu gosod o’r neilltu. Un o’r pethau hyn yw gwybod am ddydd ac awr yr Ailddyfodiad (Mathew 14:36). Ond mae’n debyg ei fod yn ymwybodol i raddau oedd yn gweddu i’w ddyndod, o’r awyrgylch, y gogoniant a’r llawenydd sydd yn y nefoedd. Petai yn gwybod dim am ei gynfodolaeth, yn gwybod dim am fywyd y nefoedd, sut yn y byd y byddai wedi medru dweud: “Pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyich?” (Ioan 14:2)?

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Dat. 1:1–18; Ioan 17:5; Heb. 7:3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddywedodd Iesu amdano ei hun?
2. Beth a gadarnhaodd yn ei weddi?

Gweddi

Arglwydd Iesu, os na fedri di ddweud wrthym am y nefoedd, ni all neb ddweud wrthym. Yr wyt wedi rhoi dy air fod y fath le, ac yr wyf am angori fy mywyd ar dy air di, a hynny er mwyn dy enw annwyl. Amen.